O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 846 (Cy. 196)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 9, Gwynedd) a Chefnffordd yr A487 (Ffordd Gyswllt rhwng Cylchfan Treborth a Chylchfan Parc Menai, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Gorffennaf 2021* |
| *Yn dod i rym* | *19 Gorffennaf 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A55 a'r A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 9, Gwynedd) a Chefnffordd yr A487 (Ffordd Gyswllt rhwng Cylchfan Treborth a Chylchfan Parc Menai, Gwynedd) (Gwahardd

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Gorffennaf 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor a chefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 19 Gorffennaf 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

### Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**6.** Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Gorffennaf 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

**Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro**

**1.** Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9 yr A55.

**2.** Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9 yr A55.

**3.** Y darn o gefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan y Gorllewin (Parc Menai) Cyffordd 9 a Chylchfan y Dwyrain (Ffordd Treborth) Cyffordd 9 gan gynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Treborth.